

**TRANSCRIPT FOR VIDEO (WELSH LANGUAGE VERSION)**

<https://www.bbc.co.uk/teach/young-reporter/lesson-4-writing-news/z9d3hcw>

Croeso nol.

Unwaith y mae newyddiadurwr wedi casglu popeth sydd ei angen – i gynhyrchu adroddiad – mae'n amser i ddechrau ysgrifennu.

Ond sut mae dechrau?

Os byddwch chi'n ysgrifennu ar gyfer y teledu neu'r radio, cofiwch y bydd eich geiriau'n cael eu darllen yn uchel – a bydd angen ysgrifennu sgrïpt allai gynnwys clipiau sain neu fideo.

Os byddwch chi'n ysgrifennu stori ar-lein, rhaid i chi ystyried sut bydd y geiriau a'r lluniau yn ymddangos ar y sgrîn.

Ond, cyn i chi ddechrau sgrifennu rhywbeth, gofynnwch y cwestiwn mwyaf pwysig – beth yw prif bwynt y stori?

Os nad y'chi'n siŵr, dwedwch y stori wrth ffrind. Beth yw'r peth cyntaf ych chi'n dweud wrthyn nhw?

Dyma fydd dechrau'r adroddiad. Os na ddewch chi'n syth at y pwynt, fe fyddwch chi'n colli sylw'r gynulleidfa, a dyna'r peth sydd angen ei osgoi.

Canol eich adroddiad fydd yn cynnwys y goreuon o'ch cyfweiliadau.

Felly, ewch nôl dros eich deunydd. Pa rai yw'r atebion gorau? Pa farn yw'r un fwyaf diddorol? Pa ddyfyniad fyddai orau i'w gydbwyso?

A bydd angen cynllunio diwedd yr adroddiad. Ystyriwch beth yw'r diwedd glo gorau. Meddylwch am yr argraff y mae'r story yn creu.

Ry'ch chi eisoes yn gwybod am 5 pwynt pwysig am gasglu newyddion, mae hefyd 3 C am ysgrifennu newyddion:

- Rhaid cael adroddiad CLIR,
- CRYNO
- ac adroddiad CYWIR

Clir

Ysgrifennwch fel pe baech chi'n dweud y stori wrth un person.

Defnyddiwch iaith syml y bydd pawb yn ei deall.

Peidiwch byth â defnyddio gair hir lle byddai un byr, syml yn gweithio.

Cryno

Sy'n golygu byr.

Os bydd eich adroddiad yn rhy hir, bydd eich cynulleidfa'n colli diddordeb.

Felly, cadwch at y ffeithiau allweddol yn hytrach na gorlwytho'r stori gyda gwybodaeth.

Cywir

Sicrhewch bod eich ffeithiau'n gywir.

A'ch gramadeg a'ch atalnodi'n gywir.

Rhaid hefyd bod yn ffeithiol gywir.

Allwch chi ddim copio pethau gan rywun arall – rhaid i chi fod yn onest ac egluro o ble daeth y wybodaeth.

Gwirionedd a chywirdeb yw dau o werthoedd Newyddion y BBC.

Cewch ragor o help yn ein dosbarthiadau meistr.

Pob lwc – wrth i chi lunio'r adroddiadau newyddion – a mwynhewch.